RHAN 1

CRYNODEB AC ESBONIAD

1. Cyfansoddiad y Cyngor

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi cytuno ar gyfansoddiad newydd sy'n cyflwyno sut mae'r Cyngor yn gweithredu, sut y gwneir penderfyniadau, a'r gweithdrefnau a ddilynir i sicrhau bod y rhain yn effeithiol, yn dryloyw ac yn atebol i bobl leol. Mae rhai o'r prosesau hyn yn ofynnol gan y ddeddf, tra bo eraill yn fater i'r Cyngor eu dewis.

Rhennir y Cyfansoddiad i 16 o erthyglau sy'n cyflwyno'r rheolau sylfaenol sy'n llywio busnes y Cyngor. Darperir gweithdrefnau a chodau ymarfer mwy manwl mewn rheolau a phrotocolau ar wahân ar ddiwedd y ddogfen.

2. Beth sydd yn y Cyfansoddiad?

2.1 Mae Erthygl 1 y Cyfansoddiad yn ymrwymo'r Cyngor i wneud penderfyniadau mewn modd effeithlon ac effeithiol, gan roi arweiniad o fewn y gymuned, gweithio mewn partneriaeth ag eraill a chymryd barn y trigolion lleol i ystyriaeth. Mae Erthyglau 2 – 16 yn egluro hawliau dinasyddion a sut mae rhannau allweddol y Cyngor yn gweithredu. Mae'r rhain fel a ganlyn:

Aelodau'r Cyngor (Erthygl 2)
Dinasyddion a'r Cyngor (Erthygl 3)
Swyddogaeth a Chyfarfodydd y Cyngor (Erthygl 4)
Cadeirio'r Cyngor (Erthygl 5)
Pwyllgorau Craffu (Erthygl 6)
Y Bwrdd Gweithredol (Erthygl 7)
Pwyllgorau Rheoleiddio (Erthygl 8)
Y Pwyllgor Safonau (Erthygl 9)
Pwyllgorau a Fforymau Rhanbarthol (Erthygl 10)
Trefniadau ar y cyd (Erthygl 11)
Swyddogion (Erthygl 12)
Gwneud penderfyniadau (Erthygl 13)
Cyllid, contractau a materion cyfreithiol (Erthygl 14)
Adolygu a diwygio'r Cyfansoddiad (Erthygl 15)
Atal, dehongli a chyhoeddi'r Cyfansoddiad (Erthygl 16).

3. Sut mae'r Cyngor yn gweithredu

3.1 Mae'r Cyngor yn cynnwys 74 o gynghorwyr a etholir fel arfer bob pedair blynedd. Mae cynghorwyr yn atebol yn ddemocrataidd i drigolion eu hetholaeth. Mae prif ddyletswydd cynghorwyr i'r gymuned gyfan, ond mae ganddynt ddyletswydd arbennig i'w hetholwyr, gan gynnwys y rhai hynny na wnaeth bleidleisio drostynt.

3.2 Mae'n rhaid i gynghorwyr gytuno i ddilyn côd ymddygiad i sicrhau safonau uchel yn y modd y cyflawnant eu dyletswyddau. Mae'r Pwyllgor Safonau yn eu hyfforddi a'u cynghori ynglŷn â'r côd ymddygiad.

3.3 Mae'r cynghorwyr i gyd yn cyfarfod fel y Cyngor. Mae cyfarfodydd y Cyngor fel arfer ar agor i'r cyhoedd. Yma mae cynghorwyr yn

penderfynu ar bolisïau cyffredinol y Cyngor ac yn gosod y gyllideb bob blwyddyn. Mae gan y Cyngor Fwrdd Gweithredol sydd yn gyfrifol yn ei dro am weithredu polisïau y cytunir arnynt gan y Cyngor, a chymryd penderfyniadau gweithredol ar faterion nad ydynt yn gyfrifoldeb y Cyngor nac un o'i bwyllgorau. Mae'r Cyngor hefyd yn cymeradwyo'r Cyfansoddiad, y rhaglen waith ar gyfer y dyfodol a'r rheolau trafodaeth ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor, y Bwrdd Gweithredol a'r pwyllgorau.

3.4 Bydd y Cyngor yn cynnal trafodaeth flynyddol ar adroddiad Arweinydd y Cyngor fydd yn gyfle i roi llais i'r dinasyddion drwy'r adborth ar yr ymgynghori ynglŷn â'r modd y mae'r Bwrdd Gweithredol yn cyflawni polisïau'r Cyngor, fel y'u nodir yn y rhaglen waith ar gyfer y dyfodol.

4. Sut y Gwneir Penderfyniadau

4.1 Y Bwrdd Gweithredol yw'r rhan o'r Cyngor sy'n gyfrifol am wneud y rhan fwyaf o'r prif benderfyniadau. Mae'r Bwrdd Gweithredol yn cynnwys deg o gynghorwyr, yr Arweinydd a'r Dirprwy Arweinydd a etholir gan y Cyngor ac wyth cynghorydd arall y mae'r Arweinydd yn penodi. Cyhoeddir y busnes sydd i'w ystyried gan y Bwrdd Gweithredol, y pwyllgorau craffu a'r cyngor yn gyffredinol yn y Rhaglen Waith ar gyfer y Dyfodol. Mae cyfarfodydd y Bwrdd Gweithredol, y Pwyllgorau Craffu, y Cyngor a phwyllgorau eraill yn agored i'r cyhoedd eu mynychu ac eithrio lle bo materion personol neu gyfrinachol yn cael eu trafod, fel y diffiniwyd gan y ddeddf. Mae'n rhaid i'r Bwrdd Gweithredol wneud penderfyniadau sydd yn unol â pholisïau cyffredinol a chyllideb y Cyngor. Os dymuna wneud penderfyniad sydd y tu allan i'r gyllideb neu'r fframwaith polisi, cyfeirir hynny fel arfer at y Cyngor cyfan. Mae rhai eithriadau i'r weithdrefn hon, a nodir yn Rheolau'r Gyllideb a'r Fframwaith Polisi a nodir yn Rhan 4 o'r Cyfansoddiad.

5. Craffu

5.1 Ceir Pwyllgor Craffu Corfforaethol a 7 o bwyllgorau craffu eraill sy'n ategu gwaith y Bwrdd Gweithredol a'r Cyngor yn gyffredinol. Maent yn gallu adolygu materion o fewn eu cylch gwaith a chaniatáu i gynrychiolwyr allanol gyfrannu at eu gweithrediadau, naill ai am un tro neu fel aelodau heb bleidlais. Mae'r dulliau yma yn arwain at lunio argymhellion i'r Bwrdd Gweithredol ac i'r Cyngor yn gyffredinol ynghylch ei bolisïau, a chyflwyno gwasanaethau. Mae pwyllgorau craffu hefyd yn monitro penderfyniadau'r Bwrdd Gweithredol. Gallant alw penderfyniad i mewn a wnaed gan y Bwrdd Gweithredol, Aelodau unigol o'r Bwrdd Gweithredol neu swyddog, ond nad yw eto wedi ei weithredu. Mae hyn yn eu galluogi i ystyried a yw'r penderfyniad yn briodol. Gallant argymell bod y penderfyniad yn cael ei ailystyried. Gellir ymgynghori â hwy hefyd gan y Bwrdd Gweithredol neu'r Cyngor ynglyn ag eitemau busnes fydd yn cael eu hystyried yn y rhaglen waith ar gyfer y dyfodol.

6. Pwyllgorau a Fforymau Rhanbarthol

6.1 Er mwyn dod â thrafod materion y cyngor yn nes at y gymuned a rhoi cyfle i drafod materion o wir ddiddordeb lleol, crëwyd 5 o

Bwyllgorau Rhanbarthol i wasanaethu Sir Gaerfyrddin yn gyfan, sef – Aman, Gwendraeth, Llanelli, Taf Myrddin a Teifi/Tywi. Hefyd, i sicrhau bod y Cyngor yn gwrando ar farn y Gymuned, mae chwe Fforwm Rhanbarthol wedi'u sefydlu, a hwylusir gan y sector cymunedol. Mae'r pwyllgorau Rhanbarthol yn gwneud penderfyniadau ar nifer o faterion penodol a ddirprwyir iddynt gan y Cyngor, yn monitro'r modd y darperir gwasanaethau yn eu hardaloedd hwy a chysylltu â'u gwahanol Fforymau Rhanbarthol, cyrff yn y gymuned leol a sefydliadau partner allweddol megis Cynghorau Tref a Chymuned. Mae pob Cynghorydd yn cymryd rhan yn y Pwyllgorau hyn, ac mae eu cyfarfodydd yn gyfarfodydd cyhoeddus. Mae Aelod o'r Bwrdd Gweithredol â chyfrifoldeb penodol am redeg y Pwyllgorau Rhanbarthol.

6.2 Mae Fforymau Rhanbarthol, sydd ar agor i'r cyhoedd a phob sector o'r gymuned ac a arweinir gan hwyluswyr o dan gontract i'r Cyngor, wedi'u sefydlu i gynorthwyo'r Cyngor i glustnodi anghenion a dyheadau lleol. Mae gan bob ardal ei gynllun APPLE ei hun erbyn hyn (sef Cynllun Rhanbarthol ar gyfer Pobl a'r Amgylchedd Lleol), sy'n clustnodi'r anghenion hynny a gwahanol ffyrdd o gwrdd â'r anghenion, ac maent i'w hadolygu yn flynyddol mewn partneriaeth ag Adrannau'r Cyngor ac asiantaethau eraill. Bydd rôl gynrychioliadol hefyd gan y Fforymau Rhanbarthol yn y broses sydd gan y Cyngor o Gynllunio Cymunedol.

7. Staff y Cyngor

7.1 Mae swyddogion y Cyngor yn rhoi cyngor, gweithredu penderfyniadau a rheoli'r modd y cyflwynir ei wasanaethau o ddydd i ddydd. Mae gan rai swyddogion ddyletswydd benodol i sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu o fewn y gyfraith ac yn defnyddio ei adnoddau yn ddoeth. Mae côd ymarfer yn rheoli'r berthynas rhwng swyddogion ac aelodau'r cyngor.

8. Hawliau Dinasyddion

8.1 Mae gan ddinasyddion nifer o hawliau wrth ymdrin â'r Cyngor. Cyflwynir y rhain yn fanylach yn Erthygl 3. Mae rhai o'r rhain yn hawliau cyfreithiol, tra bo eraill yn dibynnu ar brosesau'r Cyngor ei hun. Lle bo aelodau'r cyhoedd yn defnyddio gwasanaethau penodol y Cyngor, er enghraifft, fel rhiant i ddisgybl mewn ysgol neu fel un o denantiaid y cyngor, mae ganddynt hawliau ychwanegol. Ni chaiff y rhain eu trin yn y Cyfansoddiad hwn.
Mae gan ddinasyddion hawl i:

- bleidleisio mewn etholiadau lleol os ydynt wedi eu cofrestru;
- cysylltu â'u cynghorydd lleol ynghylch unrhyw faterion sydd yn eu pryderu;
- cael copi o'r Cyfansoddiad;
- mynychu cyfarfodydd o'r Bwrdd Gweithredol, y Cyngor a'i bwyllgorau ac eithrio lle bo materion personol neu gyfrinachol yn cael eu trafod;

- deisebu i ofyn am refferendwm ar ffurf gweithrediaeth gyda

maer;

- cyfranogi yn sesiwn holi ac ateb y Cyngor, cyflwyno deisebau a chyfrannu yn y ffordd y mae'r Cyngor yn gweithio yn unol â'r rheolau yn Rhan 4 o'r Cyfansoddiad hwn;
- darganfod, oddi wrth y rhaglen waith ar gyfer y dyfodol, pa fusnes sydd i gael ei ystyried gan y Bwrdd Gweithredol, y pwyllgorau craffu neu'r cyngor yn gyffredinol;
- gweld adroddiadau a phapurau cefndir a ystyriwyd gan y Bwrdd Gweithredol, y Cyngor ac unrhyw rai o'i bwyllgorau a'r cofnod o unrhyw benderfyniadau a wnaed gan y Cyngor, ei bwyllgorau a'r Bwrdd Gweithredol, ac eithrio lle maent yn cynnwys gwybodaeth bersonol neu gyfrinachol;
- cwyno wrth y Cyngor am unrhyw fater sy'n peri pryder ynglyn â darparu gwasanaeth. Mae'r Cyngor yn trin unrhyw anfodlonrwydd a fynegir am ddarparu gwasanaeth fel cwyn. Gellir gwneud cwyn drwy ddod i'r swyddfa yn bersonol, drwy ffonio, drwy ysgrifennu at y Cyngor neu drwy anfon e-bost. Ymdrinnir â hwy gan yr adran berthnasol, ac mae hawl apelio, at y Prif Weithredwr yn y pen draw, os yw'r sawl sy'n cwyno yn anfodlon â'r ymateb a dderbyniwyd. Mae'r Cyngor yn defnyddio cwynion fel modd i wella'r gwasanaeth yn barhaus, drwy edrych ar y rhesymau dros y cwynion, cymryd camau priodol i ddatrys y problemau, a mynd i'r afael â diffygion yn y prosesau a'r gweithdrefnau.
- cwyno wrth yr Ombwdsmon os credant eu bod wedi dioddef anghyfiawnder oherwydd nad yw'r Cyngor wedi dilyn ei weithdrefnau'n briodol. Ond fe'u hanogir i beidio â gwneud hyn hyd nes y bônt wedi defnyddio proses cwynion y Cyngor ei hun yn gyntaf;
- cwyno yn ysgrifenedig wrth yr Ombwdsmon os oes ganddynt dystiolaeth y credant sy'n dangos nad yw cynghorydd neu aelod cyfetholedig o'r cyngor wedi dilyn Côd Ymddygiad yr Aelodau; a
- archwilio cyfrifon y Cyngor a throsglwyddo eu barn i'r archwilydd allanol.

8.2 Mae'r Cyngor yn croesawu cyfranogiad gan ei ddinasyddion yn ei waith. Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am eich hawliau fel dinesydd, cysylltwch â Lyn Thomas, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith neu e-bostiwch DLThomas@sirgar.gov.uk

8.3 Mae datganiad y Cyngor ynglŷn â hawliau dinasyddion i archwilio agendâu ac adroddiadau a mynychu cyfarfodydd wedi ei osod yn Rhan 4 o'r Cyfansoddiad - Rheolau Gweithdrefn Mynediad at Wybodaeth.